CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 24 EBRILL 2008 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. D H Roberts (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
	Mr. D Carr
	Mrs. Liza Brough
	Mrs. Abbie Prescott-Bird
	Mr. Robert Griffiths

Croesawodd y Comisiwn Mrs Abbie Prescott-Bird a oedd newydd ymuno â'r Ysgrifenyddiaeth.

Nododd Mrs Smith mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf y byddai Mr Roberts yn ei fynychu a diolchodd hi iddo am ei holl waith caled dros y Comisiwn yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Y Parch. H M Davies (Aelod).

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 13 MAWRTH 2008

2.1 Cytunwyd â'r rhain.

3. MATERION YN CODI

3.1 Trefniadau Archwilio

Nodwyd bod ymateb wedi'i dderbyn nawr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.2 Wrecsam

Adroddwyd bod ymateb wedi'i dderbyn nawr oddi wrth y Gweinidog a oedd yn cynnwys ei gyfarwyddiadau ar gyfer arolwg pellach o ffiniau cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ac i edrych ar Gymuned Abenbury a'i ffin â Chymuned Parc Caia. Roedd yr arolwg wedi dechrau â llythyron cychwynnol wedi'u hanfon ar 27 Mawrth a chynrychiolaethau i'w derbyn erbyn 8 Mai 2008.

3.3 Arolwg Cymunedol Môn

Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn sicrhau y byddai'r gwersi a ddysgwyd yn ystod camau cyfieithu a chymeradwyo adroddiad terfynol Môn yn cael eu gweithredu ar gyfer arolygon yn y dyfodol. Adroddodd y Dirprwy Gadeirydd nad oedd y trydydd pwynt yr oedd wedi'i godi gyda'r cyfieithwyr wedi'i gynnwys. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at Ganolfan Bedwyr i gael

esboniad am ddilysrwydd cyfarwyddiadau'r Dirprwy Gadeirydd i'r cyfieithwyr. Nodwyd bod Y Parch. Davies yn ymwybodol y byddai'n rhaid iddo ef ymgymryd â'r swyddogaeth o gymeradwyo'r cyfieithiad pan fyddai cyfnod swydd y Dirprwy Gadeirydd yn dod i ben.

3.4 **Arolwg o'r Gofrestr Risgiau**

Roedd yr Ysgrifennydd wedi derbyn ymateb oddi wrth Crispin O'Connell ynghylch y mater trawsnewid TG. Yr ymateb oedd, er bod Mr O'Connell yn ymwybodol o sefyllfa'r Comisiwn, ni allai ond cadarnhau y byddai mwyafrif helaeth y broses drawsnewid wedi'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol (2008/09) ond nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai system TG y Comisiwn wedi'i throsglwyddo erbyn hynny. Gwahoddodd Mr O'Connell yr Ysgrifennydd i gysylltu ag ef er mwyn datrys y sefyllfa meddalwedd MapInfo. **Cytunwyd** y byddai'r ysgrifennydd yn monitro'r sefyllfa o ran y broses drosglwyddo ac y byddai'n cysylltu â Mr O'Connell ynghylch y broblem MapInfo.

3.5 **Etholiadau i Awdurdodau Lleol Cymru**

Derbyniwyd cyngor cyfreithiol ynghylch y Comisiwn yn dechrau arolwg yn ystod y cyfnod cyn-etholiad a byrdwn hyn oedd na waherddir y Comisiwn rhag cychwyn arolwg yn ystod y cyfnod hwn. Nodwyd y byddai oedi hefyd yn debygol o ddigwydd cyn etholiad cyffredinol pan fyddai'r cylch newydd o arolygon wedi cychwyn. Nodwyd y byddai angen trafod hyn efallai gyda'r Gweinidog yng nghyfarfod mis Medi er mwyn ei wneud yn ymwybodol o'r sefyllfa. Nodwyd fodd bynnag, y byddai rhywfaint o oedi yn anochel yn ystod yr adegau hyn, er y dylai cynllunio gofalus leihau hyn.

4. AROLWG CYMUNEDOL CAERFFILI – YSTYRIAETH BELLACH O GYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

4.1 Ystyriodd y Comisiwn yr atebion a gafwyd oddi wrth gynghorau cymuned ynghylch y newid ffiniau a gynigiwyd gan y Comisiwn ac aelod o'r cyhoedd. Nodwyd nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymateb eto i gais y Comisiwn. Nododd y Comisiwn nad oedd Cyngor Tref Caerffili wedi gwrthwynebu'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng ei gymuned a chymuned Y Fan. Roedd Cyngor Tref Y Coed Duon wedi gofyn pam y gwnaethpwyd y newid arfaethedig i'r ffin rhwng eu cymuned a Phen-maen o ystyried bod y ffin bresennol yn dilyn llinell hir-sefydlog Afon Sirhywi.

4.2 Nodwyd bod Cyngor Cymuned Argoed a chynghorydd lleol wedi gwrthwynebu'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Argoed a Phen-maen. Ystyriodd y Comisiwn nad oedd y cynrychiolaethau hyn yn cyflwyno achos cryf yn erbyn y cynnig. Fodd bynnag, gwnaethant ystyried hefyd bod y rhesymu gwreiddiol a oedd y tu ôl i'r cynnig hefyd yn ansylweddol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnwys y cynnig hwn yn ei adroddiad Cynigion Drafft.

4.3 Nododd y Comisiwn nad oedd Cyngor Cymuned Maesycwmer yn gwrthwynebu'r rhan fwyaf o ail-alinio arfaethedig y ffin rhwng ei gymuned a Phontllanfraith ond ystyrient na ddylid trosglwyddo'r pum annedd i'r de o'r ffordd ddeuol i Bontllanfraith gan fod y preswylwyr yn uniaethu'n gryf â Maesycwmer. Nododd y Comisiwn fod y pum annedd rhywfaint ar wahân o brif ardal adeiledig Maesycwmer ac nid oedd llawer o bosibilrwydd am ddatblygu pellach yn y cyffiniau. **Cytunwyd** y byddai'r

Comisiwn yn mynd yn ei flaen â'r cynnig gwreiddiol i drosglwyddo'r pum annedd i Bontllanfraith ar gyfer y Cynigion Drafft.

4.4 **Cytunwyd**, yn amodol ar gael ymateb am y cynigion oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, y byddai'r holl gynigion gwreiddiol yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

5. AROLWG CYMUNEDOL PEN-Y-BONT AR OGWR – YSTYRIAETH O GYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

5.1 Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr

Ystyriodd y Comisiwn fod y newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr yn gwneud synnwyr gan fod y ffin bresennol yn rhannu eiddo yng Nghlos Island Farm. Nodwyd bod Merthyr Mawr wedi gwrthwynebu'r cynnig, gan ei bod eisoes yn gallu ymdrin ag unrhyw fater a oedd yn ymwneud â'r ardal dan sylw. Barn y Comisiwn, fodd bynnag, oedd fod y ffin arfaethedig yn well na'r *status quo*. **Cytunwyd** y byddai'r newid arfaethedig i'r ffin yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cynigion drafft.

5.2 Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla a Llangrallo Isaf

Nododd y Comisiwn nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ail-alinio arfaethedig i'r ffin rhwng y cymunedau hyn. **Cytunwyd** y byddai'r newid arfaethedig i'r ffin yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cynigion drafft.

5.3 Llangrallo Uchaf a Llansanffraid-ar-Ogwr

Nododd y Comisiwn yr ail-alinio i'r ffin rhwng Llangrallo Uchaf a Llansanffraid-ar-Ogwr a awgrymwyd gan Gyngor Cymuned Llangrallo Uchaf. Roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn ardal sylweddol a **chytunwyd** heb unrhyw dystiolaeth bellach i gefnogi newid, ni theimlwyd y gellid cynnwys y cynnig yn yr adroddiad cynigion drafft.

6. AROLWG FFINIAU POWYS – MERTHYR TUDFUL – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLAETHAU A DDERBYNIWYD MEWN YMATEB I'R CYNIGION DRAFFT

6.1 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sef y dylid ystyried ymestyn y ffin arfaethedig i gynnwys Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Dôl-y-Gaer. Ystyriwyd, fodd bynnag, bod yr ardal dan sylw yn rhy helaeth i fod yn ddymunol o ran llywodraeth leol effeithiol a hwylus a **chytunwyd** y byddai'n cadw'r ffin arfaethedig yn ei gynigion drafft ar gyfer yr adroddiad terfynol.

7. AROLWG CYMUNEDOL ABERTAWE – YSTYRIAETH O GYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL

7.1 Llanrhidian Uchaf

Nododd y Comisiwn yr awgrymiadau y dylai Ward Y Crwys yng Nghymuned Llanrhidian Uchaf naill ai ffurfio cymuned ar wahân neu gael ei throsglwyddo o Lanrhidian Uchaf i Gymuned Cilâ Uchaf gerllaw. Roedd o'r farn mai gwell fyddai trosglwyddo i Gymuned Llanilltud Gŵyr yn hytrach nag i Gilâ Uchaf. **Cytunwyd** mai'r dewisiadau a gyflwynir yn yr Adroddiad Cynigion Drafft fyddai i'r Crwys ffurfio cymuned ar wahân neu gael ei throsglwyddo naill ai i Lanilltud Gŵyr neu i Gilâ Uchaf a cheisir barn am y dewisiadau hyn. Gallai'r newid ychwanegol a awgrymwyd rhwng Wardiau Penclawdd a Llanmorlais yng Nghymuned Llanrhidian Uchaf gael ei wneud o ganlyniad ôl-ddilynol i unrhyw newid yn y ffin gymunedol. Os, fodd bynnag, byddai ffin gymunedol Llanrhidian Uchaf yn aros yn ddigyfnewid yna byddai'n rhaid cyfeirio'r mater at Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

7.2 Pontlliw a Llangyfelach

Ystyriodd y Comisiwn fod y newidiadau a awgrymwyd i'r ffin sef trosglwyddo rhannau o bentref Tir Coed sydd ar hyn o bryd yn Llangyfelach i Bontlliw, yn rhesymol ac wedi'u cefnogi'n dda. Nodwyd nad oedd cynllun datblygu presennol Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn dangos unrhyw ddatblygiad pellach yng nghyffiniau ail-alinio'r ffin a awgrymwyd. **Cytunwyd** y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r ffin yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.3 Llangyfelach a Mynydd-bach

Nododd y Comisiwn fod y newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng Llangyfelach a Mynydd-bach hefyd wedi'i gyflwyno gan Gyngor Cymuned Llangyfelach er eu bod hefyd wedi cynnwys rhai anheddau ychwanegol i'r de o'r ail-alinio a awgrymwyd gan y Comisiwn. Nid oedd yr anheddau hyn wedi'u cynnwys yn awgrym y Comisiwn gan yr ystyrir mai'r unig fynediad iddynt fyddai drwy Fynydd-bach. **Cytunwyd** y byddai cynnig y Comisiwn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.4 Y Cocyd a Townhill

Roedd y Comisiwn o'r farn er bod angen newid i ymdrin â'r anghysondeb o ardal fasnach wedi'i rhannu, nid oedd unrhyw ail-alinio i'r ffin bresennol i'w dilyn. Un ail-aliniad a ystyriwyd oedd dilyn llinell y twnnel rheilffordd i'r gogledd, ond ni aethpwyd ar drywydd hwn gan ei fod yn dilyn nodwedd nad oedd yn weladwy ar y ddaear. Byddai dilyn yr ail-aliniad a awgrymwyd sef dilyn y ffordd i'r de o'r ardal fasnachol yn trosglwyddo rhai eiddo preswyl i'r Cocyd wrth adael eiddo cyfagos yn Townhill. **Cytunwyd** cynnwys y cynnig i ddilyn y ffordd i'r de o'r ardal fasnachol yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.5 Y Cocyd a Phenderi – Parc Adwerthu Fforest Fach

Ystyriodd y Comisiwn fod yr ail-alinio a awgrymwyd yn gwneud synnwyr o ystyried cynnwys yr holl barc manwerthu yn yr un gymuned ac o ran mynediad i'r parc adwerthu. **Cytunwyd** cynnwys y cynnig hwn yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.6 Y Cocyd a Phenderi – Ffordd Courtlands

Ystyriodd y Comisiwn fod ail-alinio'r ffin a awgrymwyd yn gwneud synnwyr gan fod y mynediad i'r eiddo drwy'r Cocyd. **Cytunwyd** cynnwys y cynnig hwn yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.7 Glandŵr a Threforys

Ystyriodd y Comisiwn fod ail-alinio'r ffin a awgrymwyd i gynnwys y cyfan o Ystâd Ddiwydiannol Plasmarl yn Nhreforys yn ddymunol er mwyn datrys anghysondeb yn y ffin bresennol. **Cytunwyd** ar gynnwys y cynnig hwn yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.8 Bôn-y-maen a Llansamlet

Ystyriodd y Comisiwn fod ail-alinio'r ffin a awgrymwyd i ddilyn y rheilffordd yn ddymunol gan ei fod yn datrys anghysondeb o ystâd ddiwydiannol wedi'i rhannu. Roedd hyn yn berthnasol hefyd i'r ail-alinio arfaethedig i'r gogledd-ddwyrain lle roedd y ffin bresennol hefyd yn rhannu parc masnachol bychan. Nododd y Comisiwn fod yr ail-alinio hwn a awgrymwyd yn hepgor cynnwys ardal fechan i'r gorllewin a ymddangosai fod iddi berthynas â'r parc masnachol. **Cytunwyd** diwygio'r ail-alinio a gynigiwyd yn yr ardal hon i gynnwys yr ardal i'r gorllewin. **Cytunwyd** ar gynnwys y cynigion hyn yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.9 Penlle'r-gaer a Llwchwr

Ystyriodd y Comisiwn fod ail-alinio'r ffin a awgrymwyd i ddilyn y ffordd ddeuol tua'r de yn ymddangos yn ddymunol. Nodwyd nad oedd yr ail-alinio hwn yn ystyried y ffin rhwng Wardiau Cymunedol Penlle'r-gaer sef Gorllewin Penlle'r-gaer a Dwyrain Penlle'r-gaer. Cytunwyd y byddai'r ffin rhwng Wardiau Gorllewin Penlle'r-gaer a Dwyrain Penlle'r-gaer Cymuned Penlle'r-gaer yn dilyn y ffin gymunedol bresennol i'r de-orllewin nes cyfarfod â'r ffin arfaethedig. **Cytunwyd** ar gynnwys y cynigion hyn yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.10 Penlle'r-gaer a Llangyfelach

Ystyriodd y Comisiwn yr ail-aliniad o'r ffin a awgrymwyd i gynnwys llawer o ardal y cyn Ystâd Penlle'r-gaer yng Nghymuned Penlle'r-gaer. Nodwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi cael rhywfaint o drafferth i weld ail-alinio addas o'r ffin bresennol oherwydd maint mawr yr ardal dan sylw a diffyg nodweddion addas i'r ffin eu dilyn yn yr ardal goetir o dan sylw. Nododd y Comisiwn nad oedd y ffin bresennol a ddilynai Afon Llan yn rhannu unrhyw aneddiadau. Er bod y Comisiwn yn cydnabod rhesymau Ymddiriedolaeth Penlle'r-gaer am newid y ffin bresennol, roedd yn amau a fyddai'n ddymunol er lles llywodraeth leol effeithiol a hwylus i newid ffin bresennol a ddiffiniwyd yn eglur am resymau a ymddangosai iddo i fod yn unig er mwyn ailsefydlu ardal hanesyddol. **Cytunwyd** i beidio â chynnwys ail-aliniad arfaethedig y ffin rhwng Penlle'r-gaer a Llangyfelach yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.11 Clydach a Llwynbedw

Ystyriodd y Comisiwn y byddai'n ddymunol cynnwys y cyfan o bentref Y Glais yn yr un gymuned. Nodwyd bod mwyafrif y pentref ar hyn o bryd wedi'i lleoli yng Nghymuned Llwynbedw. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnig cynnwys y

cyfan o bentref Y Glais yng Nghymuned Llwynbedw yn ei Adroddiad Cynigion Drafft ond byddai'r dewis arall sef cynnwys y pentref yng Nghlydach yn parhau yn ddewis.

7.12 Y Dyfnant

Ystyriodd y Comisiwn y posibilrwydd o drosglwyddo meysydd Clwb Rygbi'r Dyfnant i Gymuned Y Dyfnant o Gymuned Cilâ Uchaf. Er iddo ystyried bod rhywfaint o rinwedd mewn newid o'r fath ni ymddangosai fod ffin amgen y gellir ei adnabod yn hawdd a hefyd roedd amheuaeth a fyddai newid o'r fath yn ddymunol o ran llywodraeth leol effeithiol a hwylus. **Cytunwyd** i beidio â chynnwys yr ail-aliniad o'r ffin a gynigiwyd i gynnwys Clwb Rygbi'r Dyfnant yng Nghymuned y Dyfnant yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.13 Y Dyfnant a Chilâ Uchaf

Ystyriodd y Comisiwn fod yr ail-alinio o'r ffin a gynigiwyd i drosglwyddo'r eiddo i'r de o Heol y Ddol o Gilâ Uchaf i'r Dyfnant yn ddymunol gan mai'r unig ffordd o gael mynediad i'r eiddo oedd drwy'r Dyfnant. **Cytunwyd** ar gynnwys y cynnig hwn yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.14 Clydach a Threforys

Ystyriodd y Comisiwn fod yr ail-alinio o'r ffin a awgrymwyd yn ymestyn yn rhy bell i'r gorllewin er mwyn cynnwys Pen-y-Rhedyn er ei fod o'r farn bod rhinwedd mewn cynnwys yr ardal oedd yn union gyfagos i'r ffin bresennol yng Nghlydach. **Cytunwyd** i ddiwygio'r cynnig i beidio â chynnwys ardal Pen-y-Rhedyn a chynnwys y cynnig diwygiedig yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.15 Llangyfelach a Threforys

Ystyriodd y Comisiwn bod rhinwedd yn yr ail-alinio o'r ffin a awgrymwyd i ddilyn Heol Pant Lasau. Nodwyd y gellir ymestyn y ffin awgrymedig yn bellach i'r gogledd ar hyd Heol Pant Lasau nes iddi gwrdd â'r ffin bresennol. **Cytunwyd** i ddiwygio'r cynnig i ddilyn Heol Pant Lasau nes cyrraedd y ffin bresennol a byddai'r cynnig diwygiedig yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.16 Townhill

Ystyriodd y Comisiwn yr awgrym fod ardaloedd Townhill a Mayhill o Gymuned Townhill yn ddwy gymuned arbennig ar wahân a oedd yn haeddu cynrychiolaeth unigol ar y Cyngor Sir. Nodwyd mai dim ond trwy greu dwy gymuned newydd y gellid cyflawni hyn, oherwydd nad oedd gan Townhill gyngor cymuned felly nid oedd modd ystyried creu dwy ward gymunedol. Nodwyd hefyd bod clwstwr o eiddo yng Nghymuned y Castell a oedd yn gyfagos i ffin Townhill ac ymddangosai mai dim ond trwy Townhill y gellir cael mynediad iddynt. **Cytunwyd** i beidio â gwneud cynnig ar hyn o bryd oherwydd diffyg tystiolaeth o gefnogaeth oddi wrth etholwyr ar gyfer creu dwy gymuned newydd. Dim ond er mwyn cael barn bellach ar yr awgrym y byddai'n cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft. **Cytunwyd**, fodd bynnag, i fabwysiadu cynnig ar gyfer ail-alinio'r ffin rhwng Cymunedau Townhill a'r Castell i gynnwys y clwstwr o eiddo a nodwyd yn Townhill.

7.17 Cwmbwrla a Phenderi

Ystyriodd y Comisiwn fod yr ail-alinio a awgrymwyd yn gwneud synnwyr gan fod yr unig fynediad at yr eiddo dan sylw drwy Benderi. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig i ail-alinio'r ffin rhwng Cymunedau Cwmbwrla a Phenderi yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.18 Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron

Ystyriodd y Comisiwn fod yr ail-alinio a awgrymwyd yn gwneud synnwyr gan fod yr unig fynediad i'r eiddo drwy Bengelli-ddrain a Waungron. **Cytunwyd** y byddai'r cynnig i ail-alinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Phengelli-ddrain a Waungron yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.19 Gorseinon a Llwchwr

Nododd y Comisiwn fod ail-alinio'r ffin a awgrymwyd i unioni'r anghysondeb yn y ffin bresennol sy'n rhannu rhan o'r ystâd yng nghyffiniau Heol Pentre Bach. Mae'r ail-aliniad a awgrymwyd yn trosglwyddo'r ardal dan sylw i Gymuned Gorseinon ar sail y ffaith bod pob mynediad i'r eiddo dan sylw drwy Orseinon. Cyflwynwyd cynrychiolaeth gerbron y pwyllgor oddi wrth Gyngor Tref Llwchwr yn gwrthwynebu'r ail-alinio a awgrymwyd ac roeddent yn cynnig ffin amgen a oedd yn dilyn Heol Pentre Bach i'r dwyrain ac yna i Hawthorn Avenue cyn ailymuno â'r ffin bresennol. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd y ffin amgen a gynigiwyd gan Gyngor Tref Llwchwr mor effeithiol â'r cynnig gwreiddiol gan fod cynnig y Cyngor yn parhau i adael eiddo yn Llwchwr, a'r unig fynediad iddynt oedd drwy Orseinon. Nodwyd, er mwyn unioni hyn, y byddai angen ymestyn y ffin am gryn bellter i Orseinon ac o ganlyniad byddai rhan fawr o Orseinon yn cael ei throsglwyddo i Lwchwr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw at ei awgrym gwreiddiol i ail-alinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr, a fyddai'n cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.20 Gorseinon a Phenlle'r-gaer

Cytunwyd y byddai'r mân newid hwn i'r ffin yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.21 Cynigion eraill

7.21.1 Nododd y Comisiwn fod newidiadau a gynigiwyd i ffiniau a awgrymwyd gan rai cynghorau cymuned nad oeddent wedi'u mapio oherwydd y disgrifiad ysgrifenedig annigonol a ddarparwyd. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi ysgrifennu at y Cynghorau hynny i gael eglurhad ond nid oedd wedi cael atebion hyd yn hyn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu am yr eildro at y Cynghorau i'w hysbysu pe na bai eglurhad am yr ardaloedd dan sylw o ran y newidiadau awgrymedig yn cael ei dderbyn erbyn cyfarfod Mehefin y Comisiwn yna ni fyddai'r newidiadau hynny a awgrymwyd yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7.21.2 **Cytunwyd** y byddai'r cynrychiolaethau a gafwyd a oedd yn cyfeirio at drefniadau etholiadol cymunedol neu sirol, a oedd y tu allan i gylch gwaith yr arolwg cymunedol, yn cael eu cyfeirio at Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

8. AROLWG CYMUNED CONWY – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

8.1 Adroddwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi cael gwybod mai Coedwig Marl oedd yr ased y cyfeiriwyd ato gan Gyngor Tref Conwy. **Cytunwyd** bod angen eglurhad pellach ar faint y llain hon ac y byddai llythyr yn gofyn am y wybodaeth hon yn cael ei anfon at Gyngor Tref Conwy.

9. WRECSAM AROLWG CYMUNEDOL (PELLACH)

9.1 Adroddwyd bod arolwg pellach o gymunedau Wrecsam wedi cychwyn a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn cynrychiolaethau oedd 8 Mai 2008. **Cytunwyd** oherwydd cyfyngiadau'r amserlen y byddai'r cynrychiolaethau yn cael eu cyflwyno yng Nghyfarfod Mehefin a'r adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Gorffennaf.

10. AROLYGON ETHOLIADOL

10.1 Nododd y Comisiwn y drafft ac awgrymwyd rhai mân newidiadau a'u mabwysiadu.

11. COD YMARFER CYDWEDDU DATA YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL - YMGYNGHORIAD STATUDOL

11.1 Nododd y Comisiwn yr adroddiad.

12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2007-08

Nododd y Comisiwn yr adroddiad a'i gymeradwyo.

13. LLYTHYR CYLCH GWAITH A'R CYNLLUN GWEITHREDOL

Nododd y Comisiwn y Llythyr Cylch Gwaith a'r Cynllun Gweithredol. **Cytunwyd** y byddai'r Cynllun Gweithredol yn cael ei anfon i'r Cynulliad.

14. UNRHYW FATER ARALL

Nodwyd bod cyfarwyddiadau ar gyfer Arolygon Cymunedol Bro Morgannwg a Blaenau Gwent wedi'u derbyn, a byddai'r llythyron cychwynnol ar eu cyfer yn cael eu hanfon ar 1 Mai 2008.

14.2 Nodwyd bod y broses ar gyfer recriwtio un aelod newydd o staff ar lefel Cymorth Tîm wedi cychwyn ac yn dilyn rhidyllu'r ceisiadau, cynhelir cyfweliadau ddydd Mercher 30 Ebrill.

15. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

15.1 Cytunwyd ar y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

Dydd Iau 12 Mehefin 2008 am 10:45
Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2008 am 10:45